




TARIAN

RHYBUDD TWYLL MISOL

CHWEFROR 2024



TROSFEDDIANNU CYFRIFON

Mae twyll trosfeddiannu cyfrifon yn fath o ddwyn hunaniaeth lle mae'r twyllwr yn cael mynediad heb awdurdod at gyfrifon ar-lein y dioddefwr er mwyn cyflawni troseddau ariannol.

Mae twyllwyr wedi ymdrechu i reoli ffonau neu gyfrifon e-byst er mwyn iddynt atal cyfrineiriau untro neu gyfarwyddiadau newid cyfrinair i gael rheolaeth o'r cyfrif. Peidiwch byth â datgelu cyfrinair untro i unrhyw un ar-lein, na dros y ffôn.

Os bydd gan dwyllwyr reolaeth o un cyfrif, gallant ei ddefnyddio i gael mynediad at wybodaeth bersonol arall er mwyn defnyddio cyfrifon eraill.

TWYLL GWYLIAU

Y llynedd, rhoddwyd gwybod am 255 o adroddiadau o Dwyll Gwyliau yn ardal De Cymru. Nodwyd yn yr adroddiadau hyn bod dros £457,041 wedi'i golli.

Anogir pobl sydd am fynd ar wyliau i gymryd camau rhagofalus a gwneud eu gwaith ymchwil ar-lein er mwyn sicrhau yr archebir eu gwyliau'n ddiogel, heb unrhyw broblem. Y pedair prif ffordd y mae twyll gwyliau'n digwydd yw drwy:

Bargeinion llety ffug.

Gwefannau archebu gwyliau wedi'u clonio.

Ad-daliadau canslo gwyliau ffug

Rhoddion gwyliau am ddim ffug

Os ydynt yn aelod o Gymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain, rhowch wybod amdanynt.



If you think you've uncovered a fraud, been targeted by a fraud or fallen victim to fraudsters, contact Action Fraud on [0300 123 2040](tel:03001232040) or via the Action Fraud website.



TARIAN

RHYBUDD TWYLL MISOL

CHWEFROR 2024



TWYLL CLYDWYR

Rydym wedi cael nifer o adroddiadau am dwyll cludwyr y mis hwn, yn benodol am dwyllwyr sy'n esgus bod yn Swyddogion yr Heddlu. Byddant yn honni bod rhywun wedi cael ei arestio gyda cherdyn y dioddefwr yn ei feddiant neu eu bod wedi arestio aelod o'r teulu y mae ei gerdyn yn ei feddiant.

Yna, gofynnir i ddioddefwyr ymweld â'u banc i godi arian, i godi arian tramor o gyfnewidfa, neu i brynu eitem ddrud i'w rhoi i gludwr ei harchwilio, a fydd hefyd yn dwyllwr.

Ni fydd yr Heddlu fyth yn cysylltu â chi fel hyn

SGAMIAU GWELLIANNAU I'R CARTEF

Rydym wedi cael gwybod yn ddiweddar am ddioddefwyr yn derbyn galwadau digymell gan unigolion sy'n honni eu bod yn gweithio i gwmni inswleiddio atig neu "hwb ynni". Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o unrhyw un sy'n ceisio cysylltu â chi er mwyn cynnal gwelliannau i'r cartref am bris isel.

Gall y sgamwyr hyn gysylltu â chi mewn sawl ffordd:

- Drwy gnocio ar eich drws.
- Drwy eich ffonio.
- Ar gyfryngau cymdeithasol.
- Drwy neges e-bost.
- Drwy neges destun



If you think you've uncovered a fraud, been targeted by a fraud or fallen victim to fraudsters, contact Action Fraud on [0300 123 2040](tel:03001232040) or via the Action Fraud website.

Cyngor

Cofiwch bob amser: os bydd rhywbeth yn ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, mae hynny'n debygol iawn.

Peidiwch byth â rhoi eich PIN banc na rhif Yswiriant Gwladol i unrhyw un.
Rhwygwch unrhyw lythyrau sy'n cynnwys eich manylion personol.
Mewngofnodwch i wefan yn uniongyrchol bob amser yn hytrach na chlicio ar ddolenni mewn neges e-bost.

Peidiwch byth ag anfon arian at unrhyw un nad ydych yn ei adnabod nac yn ymddiried ynddo, p'un a ydynt yn y DU neu dramor, na ddefnyddio dulliau talu nad ydych yn gyfforddus â nhw.

Dylech greu cyfrineiriau cryf.

Peidiwch byth â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer popeth.

Rhoi Gwybod

Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi dod ar draws twyll, wedi cael eich targedu gan dwyll neu wedi dioddef twyll, cysylltwch ag Action Fraud ar 0300 123 2040 neu drwy wefan Action Fraud.

Os ydych wedi cael eich twyllo, cysylltwch â'ch banc ar unwaith.

Cymorth

Take 5 - <https://www.takefive-stopfraud.org.uk/>
Cyngor ar Bopeth - <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>
Crimestoppers - Ffoniwch 0800 555 111
Age UK - Ffoniwch 0800 678 1602
Llinell Cyngor i Ddioddefwyr - Ffoniwch 0800 952 3000